**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**DYDD MAWRTH, 24 IONAWR 2023**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Cyfarfod Hybrid Dydd Mawrth, 24 Ionawr 2023

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Mared Eastwood (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Glyn Banks, Pam Banks, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Gillian Brockley, Helen Brown, Mel Buckley, Teresa Carberry, Tina Claydon, David Coggins Cogan, Geoff Collett, Steve Copple, Bill Crease, Paul Cunningham, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Carol Ellis, David Evans, Chrissy Gee, David Healey, Gladys Healey, Ian Hodge, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Alasdair Ibbotson, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Simon Jones, Richard Lloyd, Dave Mackie, Gina Maddison, Roz Mansell, Allan Marshall, Hilary McGuill, Ryan McKeown, Billy Mullin, Debbie Owen, Ted Palmer, Andrew Parkhurst, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Carolyn Preece, David Richardson, Ian Roberts, Dan Rose, Kevin Rush, Dale Selvester, Jason Shallcross, Sam Swash, Linda Thew, Linda Thomas, Roy Wakelam, Arnold Woolley ac Antony Wren

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Jean Davies

**HEFYD YN BRESENNOL:** Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Tai a'r Gymuned), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Rheolwr Gwasanaeth Strategaeth, Rheolwr Gwasanaeth Datblygu, Rheolwr Corfforaethol - Rhaglen Gyfalaf ac Asedau, Rheolwr Cyllid Strategol, Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg, Swyddogion Cyllid Corfforaethol, Tîm Gwasanaethau Democrataidd, a'r Tad Martin Bachelor ar gyfer gweddi.

Ar ddechrau'r cyfarfod, manteisiodd y Cynghorydd Billy Mullin ar y cyfle i atgoffa pawb fod dydd Gwener, 27 Ionawr 2023, yn Ddiwrnod Cofio'r Holocost. Mae Diwrnod Cofio'r Holocost yn ddiwrnod cofio cenedlaethol er mwyn cofio am y rhai a ddioddefodd yn yr Holocost, dan Erledigaeth y Natsïaid, ac mewn achosion o hil-laddiad dilynol yng Nghambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur. Mae'r dyddiad yn dynodi rhyddhau gwersyll crynhoi Auschwitz gan yr Undeb Sofietaidd ym 1945.

Yn ei ddatganiad eglurodd y Cynghorydd Mullin mai'r thema ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost 2023 oedd Pobl Gyffredin a gofynnodd i bawb goffáu'r diwrnod hwn drwy gymryd rhan mewn dwy funud o dawelwch ddydd Gwener, 27 Ionawr, i gofio'r gorffennol ac ystyried yr hyn y gall bawb ei wneud i herio casineb a chreu dyfodol gwell a mwy diogel.

## 64. DATGAN CYSYLLTIAD

Mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd Bernie Attridge, rhoddodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) arweiniad ar ddatganiad cysylltiadau personol sy'n rhagfarnu gan Aelodau.

Datganodd y Cynghorydd David Healey a’r Cynghorydd Gladys Healey gysylltiad personol sy’n rhagfarnu ag eitem 5: Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir y Fflint. Datganodd y Cynghorydd Dale Selvester a Sam Swash gysylltiad personol ag eitem 5 hefyd.

Datganodd y Cynghorydd Hilary McGuill, Andrew Parkhurst, Carolyn Preece a Geoff Collett gysylltiad personol ag eitem 6: Rhaglen Gyfalaf 2023/24 – 2025/26.

Datganodd y Cynghorydd Ted Palmer gysylltiad personol ag eitem 8: Cynllun Busnes Ariannol 30 Mlynedd y Cyfrif Refeniw Tai

## 65. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ei chyhoeddiadau a oedd wedi’u rhannu cyn y cyfarfod a rhestrodd y digwyddiadau yr oedd hi wedi mynd iddyn nhw rhwng 14 Rhagfyr 2022 a 24 Ionawr 2023. Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i Aelodau am eu cefnogaeth ar gyfer cynnal y Cinio Elusennol ar 24 Mawrth, a chyfeiriodd hefyd at Her Llwybr yr Arfordir Ynys Môn y bydd hi’n cymryd rhan ynddo i godi arian i’r sefydliadau y mae hi’n eu cefnogi a hithau’n Gadeirydd Cyngor Sir y Fflint.

## 66. DEISEBAU

Cafwyd y deisebau canlynol:

- Cyflwynodd y Cynghorydd Dave Hughes ddeiseb ar Achub pont droed Llanfynydd.

- Cyflwynodd y Cynghorydd Bill Crease ddeiseb ar ran Clwb Pysgota Cei Connah i wahardd cŵn o lwybrau mynediad y platfform pysgota o fewn yr ardal wedi’i ffensio yn ‘The Rosie’, Parc Gwepra.

- Cyflwynodd y Cynghorydd Glyn Banks a’r Cynghorydd Gina Maddison ddeiseb ar y cyd ar ran trigolion Gronant yn ymwneud â phryderon ynghylch datblygiad tai newydd arfaethedig yn Sefydliad Gronant.

- Cyflwynodd y Cynghorydd Glyn Banks a’r Cynghorydd Gina Maddison ddeiseb ar y cyd hefyd ar ran trigolion Ward Gronant yn ymwneud â darparu mynediad addas i bobl anabl i eiddo preswyl.

## 67. MABWYSIADU CYNLLUN DATBLYGU LLEOL (CDLL) SIR Y FFLINT.

Cyn ystyried yr adroddiad, gadawodd y Cynghorydd David Healey a’r Cynghorydd Gladys Healey yr ystafell, gan fod y ddau wedi datgan cysylltiad personol sy’n rhagfarnu â Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir y Fflint, .

Cyflwynodd Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a’r Economi adroddiad i geisio cymeradwyaeth yr Aelodau ar gyfer mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint (CDLl). Rhoddodd wybodaeth gefndir a dywedodd fod Arolygwyr y CDLl wedi cwblhau eu trafodaethau a bod eu Hadroddiad Terfynol ar

yr Archwiliad i Gynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint, dyddiedig 15 Rhagfyr 2022, wedi'i gyhoeddi. Cafodd yr Adroddiad Terfynol a'i atodiadau eu cynnwys yn atodiad 1 yr adroddiad.

Adroddodd y Prif Swyddog ar y prif ystyriaethau fel y nodir yn yr adroddiad a thalodd deyrnged i bawb a gymerodd ran am eu proffesiynoldeb, eu dycnwch a'u cydweithrediad wrth gynhyrchu'r CDLl. I gloi, dywedodd y Prif Swyddog pe bai'r CDLl yn cael ei fabwysiadu y byddai'n rhoi sicrwydd i gymunedau yn Sir y Fflint ynghylch yr ardaloedd a'r amgylcheddau y byddai'n cael eu diogelu ac y byddai'n nodi nifer bychan o ardaloedd lle gallai datblygiad, mewn egwyddor, ddigwydd yn amodol ar geisiadau cynllunio yn y dyfodol. Byddai'r CDLl yn rhoi'r polisïau perthnasol i'r Cyngor ar gyfer penderfynu ar ddatblygiadau arfaethedig.

Soniodd y Rheolwr Gwasanaeth Strategaeth am y rhesymau cadarnhaol dros fabwysiadu'r CDLl a chyfeiriodd at y pwyntiau allweddol yn ymwneud ag Adroddiad yr Arolygydd. Rhoddodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Gwasanaeth Strategaeth gyflwyniad a oedd yn trafod y meysydd canlynol:

- Adroddiad terfynol yr Arolygydd
- y broses fabwysiadu
- dyletswydd gyfreithiol
- canlyniadau yn sgil peidio â mabwysiadu
- ar ôl mabwysiadu
- gohebiaeth ddiweddar

Gwnaeth y Prif Swyddog (Llywodraethu) dynnu sylw at y dyletswyddau cyfreithiol sydd wedi'u nodi ym mharagraff 1.13 yr adroddiad a chyfeiriodd at y dewisiadau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad naill ai i fabwysiadu'r polisi heb ei ddiwygio, neu ei wrthod yn ei gyfanrwydd. Eglurodd y Prif Swyddog nad oedd unrhyw rym dan y Rheoliadau i fabwysiadu'r CDLl yn rhannol nac ei ddiwygio a rhoddodd gyngor ar oblygiadau'r dewisiadau.

Siaradodd y Cynghorydd Chris Bithell o blaid y CDLl a chynigiodd yr argymhellion yn yr adroddiad. Dywedodd y Cynghorydd Dave Hughes ei fod yn cefnogi'r CDLl yn llwyr ac eiliodd y cynnig.

Siaradodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson o blaid y CDLl ac anogodd Aelodau i gefnogi'r argymhellion.

Dywedodd y Cynghorydd Bernie Attridge ei fod yn cefnogi'r CDLl.

Siaradodd y Cynghorydd Sam Swash yn erbyn mabwysiadu'r CDLl a dywedodd nad oedd trigolion Penarlâg/Ward Mancot yn cefnogi'r Cynllun.

Dywedodd y Cynhorydd Mike Peers bod y CDLl yn rhoi 'sicrwydd' a soniodd am y broblem o ran "datblygu hapfasnachol" yn Sir y Fflint. Dywedodd ei fod yn cefnogi'r CDLl ar y cyfan.

Dywedodd y Cynghorydd Helen Brown y byddai mabwysiadu'r CDLl yn cael effaith niweidiol ar gymunedau lleol a soniodd am faterion yn ymwneud â llifogydd yn ei Ward hi, a diffyg isadeiledd ac ysgolion. Anogodd yr Aelodau i bleidleisio yn erbyn y CDLl.

Dywedodd y Cynghorydd Gillian Brockley nad oedd hi'n gallu cefnogi pob agwedd ar y CDLl ac ategodd y pryderon a fynegodd y Cynghorydd Brown ynghylch y mater yn ymwneud â llifogydd, yr angen am isadeiledd, tai fforddiadwy, ysgolion a diogelu mannau gwyrdd a bioamrywiaeth.

Dywedodd y Cynghorydd Carol Ellis na allai gefnogi'r CDLl a siaradodd am yr anawsterau y mae trigolion lleol wedi'u profi yn ei Ward hi o ganlyniad i ddatblygiadau diweddar.

Siaradodd y Cynghorydd Ant Turton am y mater yn ymwneud â llifogydd a'r effaith ddinistriol a gaiff ar drigolion a'u cartrefi.

Wrth grynhoi, rhoddodd y Cynghorydd Chris Bithell sylw i'r pryderon a gododd yr Aelodau ynghylch "fforddiadwyedd", lleoliad y safle, llifogydd, cludiant, ysgolion ac isadeiledd.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad a phleidleisio arnynt.

Gofynnwyd am bleidlais wedi'i chofnodi, a chefnogodd nifer gofynnol o Aelodau hyn.

Pleidleisiodd y Cynghorwyr canlynol ar gyfer yr argymhellion:
Bernie Attridge, Sean Bibby, Chris Bithell, Mel Buckley, Teresa Carberry, Tina Claydon, Geoff Collett, Steve Copple, Paul Cunningham, Rob Davies, Ron Davies, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, David Evans, Dave Hughes, Ray Hughes Alasdair Ibbotson, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Simon Jones, Richard Lloyd, Gina Maddison, Allan Marshall, Hilary McGuill, Billy Mullin, Debbie Owen, Ted Palmer, Andrew Parkhurst, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Ian Roberts, Kevin Rush, Jason Shallcross, Linda Thew, Roy Wakelam, Arnold Woolley, ac Antony Wren.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn yr argymhellion:
Gillian Brockley, Helen Brown, David Coggins-Cogan, Bill Crease, Chrissy Gee, Ian Hodge, Andy Hughes, Carolyn Preece, David Richardson, Dan Rose, Dale Selvester, Sam Swash, Linda Thomas, ac Ant Turton.

Ymatalodd yr Aelodau canlynol:
Glyn Banks, Pam Banks, Marion Bateman, Adele Davies-Cooke, Carol Ellis, Dave Mackie, a Roz Mansell

Ar ôl pleidlais, cafodd yr argymhellion canlynol eu derbyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir y Fflint (Fersiwn Terfynol yn Atodiad 2 – fel y'i diwygiwyd gan y newidiadau rhwymol sydd wedi'u nodi yn Adroddiad yr Arolygydd), fel y cynllun datblygu newydd ar gyfer ardal weinyddol Sir y Fflint;

(b) Cymeradwyo'r Datganiad Mabwysiadu (Atodiad 3), yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Terfynol gan gynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad 4), a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Atodiad 5); a

(c) Bod y Cyngor yn awdurdodi'r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) i wneud diwygiadau teipograffyddol, gramadegol, cyflwyniadol neu ffeithiol sy'n weddill i Gynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint a'r dogfennau ategol cyn ei gyhoeddi'n derfynol.

Cafodd y Cynghorydd David Healey a Gladys Healey eu gwahodd i ddychwelyd i'r cyfarfod a chawson nhw wybod bod yr argymhellion yn yr adroddiad wedi'u cymeradwyo ar ôl pleidlais wedi'i chofnodi.

Ar y pwynt hwn cymerodd y pwyllgor egwyl byr.

**68. <u>RHAGLEN GYFALAF 2023/24 – 2025/26</u>**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Strategol yr adroddiad a oedd yn cyflwyno Rhaglen Gyfalaf 2023/24 – 2025/26 i'w chymeradwyo.

Dywedodd y Rheolwr Cyllid Strategol fod Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor wedi'i rhannu'n dair adran:

- Statudol/Rheoleiddiol – dyraniadau i fodloni gwaith rheoleiddiol a statudol;
- Asedau wedi'u Cadw – dyraniadau i ariannu gwaith isadeiledd angenrheidiol i sicrhau parhad gwasanaeth a busnes; a
- Buddsoddi – dyraniadau i ariannu'r gwaith angenrheidiol i ail-lunio gwasanaethau i wneud arbedion effeithlonrwydd sydd wedi'u nodi mewn cynlluniau busnes portffolios a buddsoddi mewn gwasanaethau fel sydd wedi'u nodi yng Nghynllun y Cyngor.

Rhoddodd y Rheolwr Cyllid Strategol gyflwyniad a oedd yn trafod y prif bwyntiau canlynol:

- strwythur - Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor
- rhaglen gyfredol 2022/23 - 2024/25
- cyllid a ragwelir 2023/24 - 2025/26
- statudol/rheoleiddiol - dyraniadau arfaethedig
- asedau wedi'u cadw - dyraniadau arfaethedig
- Adran fuddsoddi - dyraniadau arfaethedig
- crynodeb rhaglen wedi ei hariannu'n gyffredinol
- cynlluniau sy'n cael eu hariannu'n benodol
- crynodeb rhaglen gyfalaf
- cynlluniau posib ar gyfer y dyfodol

Y Cynghorydd Richard Jones yn cynnig gohirio'r eitem.  Nododd ei resymau a dywedodd yn ei farn ef y byddai'n annoeth cytuno i Raglen Gyfalaf tan fod y Cyfrif Refeniw wedi'i gydbwyso. Eiliodd y Cynghorydd Bernie Attridge hyn.

Siaradodd y Cynghorydd Ian Roberts yn erbyn y cynnig i ohirio a gofynnodd am gyngor gan y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Prif Weithredwr ynghylch y flaenoriaeth i ystyried y Rhaglen Gyfalaf yn y cyfarfod.

Cynigiodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson welliant i'r cynnig a wnaeth y Cynghorydd Richard Jones. Cynigiodd y dylid mabwysiadu argymhellion 1 i 4 yn yr adroddiad.

Cafwyd pleidlais ar gynnig y Cynghorydd Richard Jones i'r eitem gael ei gohirio tan gyfarfod y Cyngor Sir yn y dyfodol. Roedd y cynnig yn aflwyddiannus yn dilyn pleidlais.

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Roberts y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf yn unol â'r argymhellion yn yr adroddiad a siaradodd o blaid y Rhaglen Gyfalaf. Eiliodd y Cynghorydd Christine Jones y cynnig.

Cododd y Cynghorydd Bernie Attridge gwestiynau ynghylch cyllid i fynd i'r afael â materion seiberddiogelwch, digartrefedd, a chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Theatr Clwyd. Ymatebodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) i'r sylwadau a godwyd yn ymwneud â seiberddiogelwch. Ymatebodd y Rheolwr Corfforaethol - Rhaglen Gyfalaf ac Asedau i'r cwestiynau a godwyd ynghylch sicrhau cyllid ar gyfer Theatr Clwyd a rhoddodd eglurhad pellach ar y Rhaglen Gyfalaf. Rhoddodd y Prif Weithredwr eglurhad ynghylch cyllid grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer digartrefedd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at y Rhaglen Gyfalaf a gofynnodd gwestiynau am adleoli Darpariaeth o ran Gwasanaethau Dydd Tri-ffordd (tudalennau 29 a 30 yn yr adroddiad). Cyfeiriodd at y safle 10 erw ar gyrion yr Wyddgrug y cafodd ei nodi'n lleoliad newydd posibl a gofynnodd a oedd y safle'n berchen i'r Cyngor neu a oedd wedi'i brynu. Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers hefyd at y wybodaeth bod Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy yn cyrraedd diwedd ei hyfywedd economaidd (tudalen 43, paragraff 1.54) a dywedodd bod rhai ysgolion yn Sir y Fflint yn hŷn ac y dylen nhw gael eu hadolygu a'u hystyried yn y Rhaglen Gyfalaf.

Gwnaeth y Rheolwr Corfforaethol - Rhaglen Gyfalaf ac Asedau ymateb i'r sylwadau a chadarnhaodd bod y safle 10 erw yn yr Wyddgrug yn berchen i'r Cyngor. O ran yr ysgolion, cadarnhawyd bod ysgolion wedi cael buddsoddiad gan raglenni buddsoddi LlC (Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a elwir erbyn hyn yn Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy), ynghyd â rhaglen Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cyfalaf y Cyngor, sydd wedi'i atgyfnerthu gan gyllid Cynnal a Chadw ac Atgyweirio ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a oedd yn benodol i ysgolion. Blaenoriaethwyd buddsoddiad ysgolion gan ddefnyddio gwybodaeth rheoli asedau a gedwir yn y portffolio Addysg ac Ieuenctid. Hefyd, rhoddodd y Rheolwr Corfforaethol – Rhaglen Gyfalaf ac Asedau, y wybodaeth ddiweddaraf am Ganolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy, a dywedodd fod y Rhaglen Gyfalaf bob amser yn cynnwys prosiectau arfaethedig nad ydyn nhw wedi'u cynnwys yn y cylch presennol ond sydd ar y gweill a chyfeiriodd at waith sydd wedi'i wneud i foderneiddio isadeiledd Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy wrth ei drawsnewid yn ysbyty, a oedd yn welliant.

Mynegodd y Cynghorydd Glyn Banks bryder ynghylch cynnydd yng nghost Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl ac awgrymodd y dylid cynnal adolygiad brys o'r broses gaffael. Ceisiodd gael eglurhad hefyd am y cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Theatr Clwyd. Rhoddodd y Rheolwr Corfforaethol – Rhaglen Gyfalaf ac Asedau, ragor o wybodaeth am y cyfraniadau a wnaeth y Cyngor a LlC i Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd a dywedodd nad oedd angen rhagor o gyllid cyfalaf gan y Cyngor Sir.

Mewn ymateb i'r pryderon a gododd y Cynghorydd Mike Peers ynghylch oed rhai adeiladau ysgolion, dywedodd y Cynghorydd Ian Roberts fod gan bob ysgol arolwg cyflwr adeilad ac yn sgil y canlyniad, gellid rhoi blaenoriaeth i ysgolion i'w hystyried ar gyfer buddsoddiad cyfalaf.

Gofynnwyd i Aelodau bleidleisio ar y cynnig i gymeradwyo'r argymhellion canlynol, y cafodd eu cynnig gan y Cynghorydd Ian Roberts a'u heilio gan y Cynghorydd Christine Jones. Ar ôl pleidlais, cafodd yr argymhellion eu derbyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r dyraniadau a'r cynlluniau yn Nhabl 3 (paragraff 1.09) ar gyfer adrannau Asedau wedi'u cadw a Statudol/Rheoleiddiol yn Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2023/24 - 2025/26;

(b) Cymeradwyo'r cynlluniau wedi'u cynnwys yn Nhabl 4 (paragraff 1.31) ar gyfer yr adran ar fuddsoddi yn Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2023/24 - 2025/26;

(c) Nodi bod diffyg cyllid ar gyfer cynlluniau yn 2024/25 a 2025/26 yn Nhabl 5 (paragraff 1.37) ar y pwynt hwn yn y broses gymeradwyo yn caniatáu hyblygrwydd. Bydd dewisiadau yn cynnwys cyfuniad o dderbyniadau cyfalaf yn y dyfodol, grantiau eraill (os ydyn nhw ar gael), benthyca darbodus neu gynlluniau fesul cam yn cael eu hystyried yn ystod 2023/24 ac yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau ar y Rhaglen Gyfalaf yn y dyfodol; a

(d) Cymeradwyo'r cynlluniau sydd wedi'u cynnwys yn Nhabl 6 (paragraff 1.41) ar gyfer yr adran sy'n cael ei hariannu'n benodol yn Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor a fydd yn cael ei hariannu'n rhannol drwy fenthyca.

## 69. STRATEGAETH GYFALAF YN CYNNWYS DANGOSYDDION DARBODUS 2023/24-2025/26

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yr adroddiad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Strategaeth Gyfalaf y Cyngor 2023/24 - 2025/26 a cheisio cymeradwyaeth gan y Cyngor. Mae'r adroddiad yn egluro pam yr oedd angen y Strategaeth, yr amcanion allweddol a chynnwys pob adran. Yn unol â'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Cod Darbodus), yr oedd yn rhaid i Awdurdodau bennu ystod o ddangosyddion darbodus. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cynnwys manylion Dangosyddion Darbodus y Cyngor ar gyfer 2023/24 – 2025/26.

Cafodd y Strategaeth Gyfalaf ei nodi gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol mewn cyfarfod a gafodd ei gynnal ar 17 Tachwedd 2022 a chafodd y sylwadau eu cyflwyno yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2022. Nid oedd unrhyw bryderon na newidiadau a argymhellir wedi'u codi.

Gofynnodd y Cynghorydd Richard Jones i'r Strategaeth Gyfalaf gael ei chyflwyno i'w hystyried cyn y Rhaglen Gyfalaf mewn cyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Johnson at gytundeb yr oedd wedi'i sefydlu'n flaenorol gan yr Aelodau o ran trefn yr eitemau.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Paul Johnson a'u heilio. Ar ôl pleidlais, cafodd yr argymhellion eu derbyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Fod y Strategaeth Gyfalaf yn cael ei chymeradwyo; a

(b) Bod y canlynol yn cael eu cymeradwyo:
-

- Dangosyddion Darbodus 2023/24 - 2025-26 fel y nodir yn Nhabl 1 a 4 – 8 y Strategaeth Gyfalaf.

- Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y Rheolwr Cyllid Corfforaethol i wneud newidiadau rhwng y terfynau y cytunwyd arnyn nhw ar wahân o fewn y terfynau awdurdodedig ar gyfer dyled allanol a'r ffin weithredol ar gyfer dyled allanol (Tabl 6 y Strategaeth Gyfalaf).

## 70. CYNLLUN BUSNES ARIANNOL 30 BLYNEDD Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) adroddiad i gyflwyno Cynllun Busnes Ariannol 30 mlynedd drafft y CRT a Chyllideb arfaethedig CRT ar gyfer 2023/24 i'w hystyried.

Cafwyd cyflwyniad gan y Prif Swyddog a'r swyddogion Cyllid Corfforaethol a drafododd y canlynol:

- Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24
- o ble ddaw cyllid y CRT?
- i ble mae'r arian yn mynd - costau cynnal CRT
- sut mae ein costau ni'n cymharu ag awdurdodau eraill sy'n dal stoc - gwerth am arian
- gosod rhent
- chwyddiant arfaethedig o ran rhent
- effaith rhent ar denantiaid ar gynnydd o 5%
- rhent - effaith gosod prisiau rhent yn is na ganiateir dan y polisi rhent
- taliadau gwasanaeth
- gofynion cyllideb y CRT ychwanegol ar gyfer 2023/24
- Rhaglen Gyfalaf y CRT
- datgarboneiddio

- Cyllid Cyfalaf y Cyfrif Refeniw
- benthyca darbodus
- cronfeydd wrth gefn

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Sean Bibby a'u heilio gan y Cynghorydd Hilary McGuill.

Soniodd y Cynghorydd Helen Brown am y mater o eiddo gwag. Dywedodd bod hyn ar ei uchaf ar hyn o bryd a gofynnodd am yr hyn sydd wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r mater yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a sut yr oedd y cynnydd wedi effeithio ar y cynllun busnes.

Mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd Mike Peers rhoddodd y Swyddog Cyllid Corfforaethol drosolwg o sut yr oedd bron i £300,000 mewn arbedion effeithlonrwydd wedi'i gyflawni yn y CRT.

Mynegodd y Cynghorydd Bernie Attridge bryderon y byddai taliadau gwasanaeth yn cael eu gohirio ar gyfer tenantiaid presennol ond nad oedden nhw'n berthnasol i denantiaid newydd. Gwnaeth sylw hefyd ar fater eiddo gwag a phwysleisiodd yr angen i ddefnyddio arian dros ben yn ystod y flwyddyn ar frys i leihau nifer yr eiddo gwag yn Sir y Fflint.

Rhoddodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) eglurhad ynghylch cost taliadau gwasanaeth i denantiaid. Mewn ymateb i'r cwestiynau a'r sylwadau yn ymwneud ag eiddo gwag, rhoddodd y Prif Swyddog y ffigur ar gyfer y 12 mis diwethaf a dywedodd y byddai modd rhoi'r ffigurau ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf ar ôl y cyfarfod.

Gan fod yr argymhellion wedi'u cynnig a'u heilio, cafwyd pleidlais a chafodd yr argymhellion canlynol eu derbyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo Cynllun Busnes Ariannol 30 mlynedd y CRT a'r gyllideb ar gyfer 2023/24 fel y nodir yn yr adroddiad hwn a'r atodiadau sydd ynghlwm; ac

(b) Ystyried defnyddio'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael, yn ystod y flwyddyn, er mwyn sicrhau bod modd defnyddio eiddo gwag yn Sir y Fflint.

## 71. ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS 2022/23

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2021/22. Dywedodd, fel sy'n ofynnol gan Reolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor, fod yr Adroddiad Blynyddol wedi'i adolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Gorffennaf 2022 a'r Cabinet ar 26 Medi 2022. Nid oedd unrhyw faterion o bwys wedi'u codi. Adroddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol ar y prif bwyntiau fel y disgrifir yn 1.05 – 1.09 yr adroddiad eglurhaol.

Wrth gynnig yr argymhelliad yn yr adroddiad fe wnaeth y Cynghorydd Paul Johnson ddiolch i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'i dîm am eu gwaith ar gynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol. Eiliodd y Cynghorydd Ted Palmer hyn.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2020/23.

## 72. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad i geisio cymeradwyaeth ar gyfer Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2021/22. Cyflwynodd wybodaeth gefndir a chyfeiriodd at y pwyntiau allweddol sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad. Roedd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2021/22 wedi'i atodi i'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2021/22.

## 73. RHEOLAU GWEITHDREFNAU ARIANNOL

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yr adroddiad i roi'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol wedi'u diweddaru i'r Cyngor Sir ar ôl adolygiad manwl. Dywedodd fod y Rheolau Gweithdrefnau Ariannol wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn cyfarfod y cafodd ei gynnal ar 14 Tachwedd 2022 a gofynnwyd am eglurhad ynghylch rhai o'r newidiadau y cafodd eu gwneud. Roedd y pwyntiau a godwyd a'r ymatebion a gyflwynwyd wedi'u nodi yn yr adroddiad. Gwnaeth Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd ystyried y Rheolau Gweithdrefnau Ariannol hefyd ar 12 Ionawr 2023 a gofynnwyd am ragor o eglurhad ynghylch rhai adrannau ond nid oedd angen unrhyw ddiwygiadau pellach. Roedd y Rhestr Termau a'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol wedi'u diweddaru wedi'u hatodi i'r adroddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Bernie Attridge yr argymhelliad yn yr adroddiad a chafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Rob Davies.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol wedi'u diweddaru.

## 74. MABWYSIADU'R CANLLAW IAITH GYFFREDIN MODEL I'R CYFANSODDIAD A GWNEUD DIWEDDARIADAU I'R CYFANSODDIAD MODEL CENEDLAETHOL.

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr adroddiad i argymell mabwysiadu'r canllaw iaith gyffredin a'r Cyfansoddiad wedi'i ddiwygio yn dilyn gwaith y gweithgor y cafodd ei benodi gan Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd. Rhoddodd wybodaeth gefndir a dywedodd fod y gweithgor wedi ystyried model y canllaw iaith gyffredin drafft mewn cysylltiad â'r

cyfansoddiad a’r diwygiadau i Fodel y Cyfansoddiad wedi’i ddiweddaru drafft ac wedi adrodd yn ôl i gyfarfod Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd y cafodd ei gynnal ar 12 Ionawr 2023. Penderfynodd y Pwyllgor wneud yr argymhellion sydd wedi’u nodi yn yr adroddiad i'r Cyngor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at Atodiad 1, paragraff 1.2 (iii), ac awgrymodd y dylid dileu'r is-baragraff gan ei fod yn credu bod swyddogaeth Aelodau Etholedig i gefnogi’r Cyngor a bod yn eiriolwr iddo eisoes wedi’i drafod ym mharagraff (ii). Nododd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y gwelliant ac eglurodd y gallai gael ei gynnwys yn yr argymhelliad cyntaf yn yr adroddiad pe bai'n cael ei fabwysiadu.

Ar ôl pleidlais, cafodd yr argymhellion canlynol eu derbyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Y dylai disgrifiadau o’r swyddogaethau ym Model y Cyfansoddiad drafft fod yn amodol ar ymgynghori ag Aelodau perthnasol, cyn i'r cyfansoddiad wedi'i ddiweddaru gael ei fabwysiadu yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol; a

(b) Cymeradwyo’r canllaw iaith gyffredin i’w fabwysiadu yn y Cyfarfod Blynyddol, yn amodol ar gymharu’r ddogfen derfynol a chroesgyfeirio â’r cyfansoddiad drafft er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb rhwng y dogfennau hynny.

## 75. AMSERLEN CYFARFODYDD Y CYNGOR A FFORMAT Y CYFARFODYDD

Gwnaeth y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd gyflwyno’r adroddiad. Cyfeiriodd at yr arolwg y cafodd ei gynnal ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2022 er mwyn cael barn Aelodau etholedig a chyfetholedig ynghylch a ddylai trefniadau cyfarfodydd aros fel y maen nhw ar hyn o bryd neu a ddylid newid amserau i gynnwys cyfarfodydd gyda’r nos. Gofynnwyd hefyd am farn ynghylch y fformat a ffefrir ar gyfer cyfarfodydd (hybrid neu o bell).

Cyflwynwyd crynodeb o ganlyniadau’r arolwg i Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd ar 12 Ionawr 2023. Cytunodd y Pwyllgor sefydlu gweithgor i ystyried yr ymatebion a chynnal adolygiad o'r Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad interim cyn gwneud unrhyw argymhelliad i'r Cyngor ynghylch newidiadau i fformat cyfarfodydd a mabwysiadu polisi hirdymor. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod y Pwyllgor wedi argymell i'r Cyngor y dylai’r Pwyllgor Cynllunio gael ei gynnal ar ffurf hybrid cyn gynted â phosibl.

Cynigiodd y Cynghorydd Mike Peers, pan fo cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal yn y prynhawn, na ddylid trefnu cyfarfodydd na gweithdai sy’n gofyn i Aelodau fod yn bresennol ynddyn nhw yn y bore cyn y cyfarfod yn y prynhawn er mwyn i Aelodau allu paratoi ar gyfer cyfarfod y Cyngor. Roedd y Cynghorydd Richard Jones yn cefnogi hyn.

Gofynnodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson a ellid ystyried cychwyn cyfarfodydd y Cyngor am 1.00 pm.

Wrth siarad o blaid y cynnig i gynnal y Pwyllgor Cynllunio ar ffurf hybrid, gofynnodd y Cynghorydd Richard Lloyd a ellid ystyried cynnal cyfarfodydd yn swyddfeydd y Cyngor yn Nhŷ Dewi Sant, Ewlo.

Mynegodd y Cynghorydd Hilary McGuill bryderon ynghylch y goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer cynnal cyfarfodydd ar ffurf hybrid a gofynnodd a ellid darparu costau. Eglurodd y Prif Swyddog fod gweithgor wedi'i benodi i ystyried yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal cyfarfodydd mewn fformat hybrid a'r effaith ar y Tîm Gwasanaethau Democrataidd. Byddai'r gweithgor yn adrodd yn ôl i Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd ar ei ganfyddiadau a'r dewisiadau sydd ar gael.

Awgrymodd y Cynghorydd Ian Roberts y dylid ystyried cynnal cyfarfodydd y Cyngor yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion yn yr adroddiad a chafwyd trydydd argymhelliad y dylai'r bore gael ei gadw'n rhydd pan fo cyfarfod y Cyngor yn cael ei gynnal y prynhawn hwnnw er mwyn rhoi amser paratoi i Aelodau cyn cyfarfod y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r argymhelliad y dylid cynnal cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio mewn fformat 'Hybrid' o 1 Mawrth 2023.

(b) Bod y Cyngor yn aros am adroddiad arall gan Bwyllgor y Gwasanaethau Cyfansoddiad a Democrataidd ar oblygiadau gweithio hybrid a Pholisi Cyfarfodydd Aml-leoliad hirdymor; a

(c) Pan fo cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal yn y prynhawn, bod y bore'n cael ei gadw'n rhydd ar y diwrnod hwnnw er mwyn rhoi amser paratoi i Aelodau cyn cyfarfod y Cyngor.

## 76. RHYBUDD O GYNNIG

Cafodd y Rhybudd o Gynnig canlynol ei gyflwyno gan y Cynghorydd Richard Lloyd a'i eilio gan y Cynghorydd Jason Shallcross.

"Diben y cynnig hwn yw gofyn i Gyngor Sir y Fflint fabwysiadu'r Siarter Clefyd Niwronau Motor, sy'n nodi'r gofal a'r cymorth y mae pobl sy'n byw â Chlefyd Niwronau Motor a'u gofalwyr yn ei haeddu ac y dylen nhw ei ddisgwyl.

Mae'r Siarter Clefyd Niwronau Motor yn cynnwys 5 pwynt:

1. Yr hawl i wybodaeth a diagnosis cynnar.
2. Yr hawl i gael gofal a thriniaethau o safon.
3. Yr hawl i gael eich trin fel unigolion a hynny â pharch ac urddas.
4. Yr hawl i sicrhau bod eu hansawdd bywyd y gorau y gallai fod.
5. Mae gan ofalwyr pobl â Chlefyd Niwronau Motor yr hawl i gael eu gwerthfawrogi, eu parchu, i gael rhywun yn gwrando arnyn nhw a chefnogaeth dda.

Drwy fabwysiadu'r Siarter Clefyd Niwronau Motor, mae'r Cyngor hwn yn cytuno i hyrwyddo'r Siarter a sicrhau ei bod ar gael i bob Cynghorydd, staff y Cyngor, sefydliadau sy'n bartneriaid a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol sy'n darparu gwasanaethau i'r Cyngor.

Byddwn ni'n codi ymwybyddiaeth o Glefyd Niwronau Motor a sut beth yw gofal da ar gyfer y bobl sy'n byw â'r clefyd dinistriol hwn, fel y nodir yn y Siarter, ac yn gwneud popeth y gallwn ni fel Cyngor i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd bywyd pobl leol â Chlefyd Niwronau Motor a'u gofalwyr sy'n byw yn ein cymuned".

Wrth siarad ar y Rhybudd o Gynnig, esboniodd y Cynghorydd Richard Lloyd y rhesymau pam y cafodd ei gyflwyno i'r Cyngor a siaradodd am effaith ofnadwy'r clefyd ar ddioddefwyr a'u teuluoedd. Gofynnodd i'r Aelodau gefnogi'r Rhybudd o Gynnig a gofynnodd i'r Cyngor fabwysiadu'r Siarter Clefyd Niwronau Motor a chodi ymwybyddiaeth i helpu pobl yn y dyfodol.

Cynigiodd y Cynghorydd Richard Lloyd yr argymhelliad canlynol a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd Jason Shallcross. Ar ôl pleidlais, cafodd yr argymhelliad ei dderbyn yn unfrydol.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Rhybudd o Gynnig yn cael ei dderbyn a'i gefnogi.

## 77. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) nad oedd dim wedi dod i law erbyn y terfyn amser.

## 78. CWESTIYNAU

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) nad oedd dim wedi dod i law erbyn y terfyn amser

## 79. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU YNGLYN A CHOFNODION Y PWYLLGOR

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) nad oedd dim wedi dod i law erbyn y terfyn amser.

## 80. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 5.56 pm)

……………………………………………

**Cadeirydd**